**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Syr John Whittingdale OBE AS
Y Gweinidog Gwladol dros y Cyfryngau,
Twristiaeth a Diwydiannau Creadigol
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a
Chwaraeon

8 Rhagfyr 2023

**Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru**

Annwyl Weinidog,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher, 19 Hydref 2023, i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn wych cael eich croesawu i'r Senedd a chael eich barn gennych yn uniongyrchol.

Diolch hefyd am eich llythyr dilynol dyddiedig 14 Tachwedd 2023, ac ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb. Rydym yn croesawu'r ffaith bod trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru yn yr arfaeth ar fylchau yn narpariaeth gorsafoedd radio cymunedol o raglenni Cymraeg a'r opsiynau tymor hwy i gefnogi gorsafoedd newydd mewn rhannau o Gymru sydd heb wasanaeth.

O ran eich sesiwn dystiolaeth, rydym hefyd yn croesawu parodrwydd Llywodraeth y DU i glywed gan y Pwyllgor ar faterion megis adnewyddu trwydded sianel 3, a hawliau darlledu chwaraeon am ddim. O gofio pwysigrwydd y Chwe Gwlad i fywyd diwylliannol Cymru a gallu'r twrnamaint i ddod â chynulleidfa Cymru ynghyd i 'rannu momentau' fel cenedl, rydym yn awyddus i edrych ar y gwerth geid o ychwanegu'r gystadleuaeth at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o ddiddordeb cenedlaethol. Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar y mater yn gynnar yn 2024.

Gwnaethom hefyd drafod y posibilrwydd y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus llai, megis S4C, ei chael hi'n anoddach sicrhau amlygrwydd ar-lein wrth i batrymau gwylio symud o deledu llinol i wasanaethau ar-lein. Mae'n hanfodol sicrhau amlygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rhanbarthol, gan gydnabod cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Cawsom ein sicrhau y bydd y fframwaith rheoleiddio yn diogelu amlygrwydd gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gallu cynulleidfaoedd i ddod o

hyd i gynnwys yn parhau, ac y byddech yn hapus i godi gydag Ofcom unrhyw anawsterau y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hwynebu yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom hefyd drafod cyllid Prosiect Gigabit i wella mynediad at fand eang mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd yng Nghymru. Gwnaethoch gytuno i roi rhagor o fanylion am fudd y fenter honno i Gymru a byddem yn ddiolchgar o'u cael.

Diolch unwaith eto am rannu eich barn am y mater pwysig hwn. Rydym ni, fel Pwyllgor, yn gwerthfawrogi eich bod yn awyddus i gefnogi Cymru ac aros mewn cysylltiad â ni.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.